**COFNODION CYFARFOD CYNGOR CYMUNED LLANDYFAELOG GYNHALIWYD YN Y NEUADD 5 CHWEFROR 2026 AM 7.30YH**

**1. Yn bresennol:** Y Cyng Philip Davies (Cadeirydd), Janet Knott, Elfyn Williams, Meinir James, Jenny Jones, Viv Davies, Shan Rees, Eifion Jones ac Arfon Davies (Clerc).

**Ymddiheuriadau**: Y Cyng Carys Thomas, Nicola Jones, Rheinallt Jones a Cynghorydd Sir Tyssul Evans.

**2. Datganiadau Diddordeb**

Dim datganiadau.

**3. Cyfranogiad gan y Cyhoedd**

Nodwyd nad oedd unrhyw aelod o'r cyhoedd yn bresennol ar yr achlysur hyn.

**4. Cadarnhawyd ac arwyddwyd cofnodion cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar y 8fed Ionawr 2026.**

**5. Materion yn Codi**

1. **Green Gen** – Roedd y Cyngor yn aros am ddiweddariadau pellach ar y mater. Nodwyd.
2. **Cais cynllunio, PL/02147 mewn eiddo yn ardal coetir - Idole i Pentrepoeth –** Roedd y Cyngor yn aros am ddiweddariadau pellach ar y mater. Nodwyd.
3. **Materion diogelwch ffyrdd ym Mancycapel –** Roedd y Cyngor yn aros am ddiweddariadau pellach ar y mater. Nodwyd.
4. **Pont Rhydyronnen –** Roedd y Cyngor yn aros am ddiweddariadau pellach ar y mater. Nodwyd.
5. **PL/09369** - **1-3 Gelligaeros Trading Estate, Cwmffrwd, Caerfyrddin, SA32 8DJ** – Roedd y Cyngor yn aros am ddiweddariadau pellach ar y mater. Nodwyd.
6. **Maesglasnant, Cwmffrwd –** Roedd y Cyngor yn aros am ddiweddariadau pellach ar y mater. Nodwyd.
7. **Cynghorau Cymuned cyswllt Tywi/Teifi – Cyfarfod i Gynghorau Cymuned a Thref mewn ardaloedd yr effeithiwyd arnynt gan y prosiect peilonau –** Cynhaliwyd y cyfarfod diweddaraf ar 13eg Ionawr 2026 a dosbarthwyd y cofnodion i aelodau. Nodwyd.
8. **Tyllau gerllaw'r palmant ym Mro Pedr –** Roedd y Clerc wedi trafod y gwaith gyda'r Cyngor Sir. Roeddent wedi'u rhoi ar y rhestr o waith yn y dyfodol i'w hystyried pan fyddai adnoddau ar gael. Nodwyd.
9. **Diogelwch Ffyrdd yng Nghyffordd Llandyfaelog -** Roedd y Cyngor yn aros am ddiweddariadau pellach ar y mater. Nodwyd.
10. **Grid Cenedlaethol – Is-orsaf Llandyfaelog** – Nodwyd bod dau ddigwyddiad ymgynghori wedi digwydd yn Llandyfaelog ar 29ain a 31ain Ionawr 2026. Nodwyd.

11. **A484 Cwmffrwd, ger Cyffordd Ffordd Bolahaul** – Derbyniodd y Cyngor wybodaeth bellach gan drigolion yn codi pryderon ynghylch y gyffordd. Roedd hyn wedi'i anfon ymlaen at y Cyngor Sir a'r Heddlu i gael sylwadau.
12. **Arwydd Pentref Cloigyn** – Derbyniwyd cadarnhad bod yr arwydd wedi'i ddychwelyd i'w le.
13. **Presenoldeb yr heddlu mewn Cyfarfod Cyngor neu ddigwyddiad Allgymorth Cymunedol** – Roedd y Cyngor yn aros am ddiweddariad ar y mater. Nodwyd.
14. **Materion Gorfodi Cynllunio mewn caeau yn Idole** – Derbyniwyd cadarnhad bod hysbysiad gorfodi wedi'i gyflwyno ar 21$^{ain}$ Gorffennaf 2025 a osodwyd ar 6 mis, a bod ymweliad gorfodi i fod i gael ei gynnal ar ôl 21$^{ain}$ Ionawr 2026 i wirio cydymffurfiaeth, ond nad oedd wedi'i gynnal eto. Nodwyd.

**6. Gohebiaeth**

1. **Un Llais Cymru –** Papurau ar gyfer Pwyllgor Ardal Caerfyrddin i'w cynnal ar 27$^{ain}$ Ionawr 2026. Nodwyd.
2. **Cyd-bwyllgor Corfforaethol De-orllewin Cymru -** Ymgynghoriad ar Gytundeb Cyflawni Drafft y Cynllun Datblygu Strategol. Nodwyd.
3. **Cyngor Tref Caerfyrddin –** Gwahoddiad i Orymdaith Dydd Gŵyl Dewi ar 28$^{ain}$ Chwefror 2026. Nodwyd.
4. **Cyngor Sir Caerfyrddin –** Ymgynghoriad ar y Gyllideb. Nodwyd.
5. **Un Llais Cymru –** E-fwletin. Nodwyd.
6. **Meddygfa Sarn –** Pryder trigolion ynghylch cau'r feddygfa. Nododd aelodau eu pryder ynghylch y mater a bydd y Clerc yn ysgrifennu at Fwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda i gadarnhau gwrthwynebiad y Cyngor Cymuned i'r cynigion ac yn cwestiynu'r diffyg ymgynghori ar y mater.
7. **Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed Powys -** Gwybodaeth am Gynhadledd Dydd Gŵyl Dewi 2026: Plismona mewn Oes Ddigidol. Nodwyd.
8. **Cyngor Sir Caerfyrddin –** Diweddariad Cynghorau Tref a Chymuned. Nodwyd.
9. **Urdd Gobaith Cymru –** Llythyr diolch am rodd ddiweddar y Cyngor. Nodwyd.
10. **Un Llais Cymru –** Gwybodaeth am Ddiwrnod Coffa COVID 19. Nodwyd.
11. **Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru -** Adroddiad Argymhellion Terfynol ar gyfer y Trefniadau Etholiadol yn Sir Gaerfyrddin. Nodwyd.
12. **Un Llais Cymru –** Gwybodaeth am y Gwobrau Cenedlaethol 2026. Nodwyd.
13. **Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed Powys –** Bwletin. Nodwyd.
14. **Banc Barclays –** Datganiadau. Noted.

**7. Cae Idole ac Amwynderau Cymunedol**

1. **Gwaith Arolwg Coed**

Roedd cwbwlhad gwaith gan Lampeter Tree Services yn cael ei ddisgwyl.

2. **Archwiliad Cae Chwarae**

Cadarnhaodd y Clerc dderbyn prisiau ar gyfer yr archwiliad blynyddol fel a ganlyn:

- Play Inspection Company - £96.50
- Dragon Play - £125.00
- ROSPA - £98.00

Cytunwyd i barhau â gwasanaethau’r Cwmni Archwiliad Chwarae.

**3. Contract Torri Gwair 2026**

Nododd y Clerc fod y contractwr presennol wedi awgrymu cost o £2,352 ar gyfer y flwyddyn 2026-27, a bod y gost ar gyfer 2025 wedi'i chynnig ar £2,415. Fodd bynnag, cadarnhawyd mai'r tâl terfynol oedd £2,254.

Cytunwyd i gadw gwasanaethau Michael Leefe ar gyfer tymor 2026.

**4. Adroddiad Arolygu Amwynderau**

Cyflwynodd y Clerc adolygiad o gyflwr Amwynderau'r Cyngor yn dilyn yr arolygiad. Nodwyd yr adroddiad.

**8. Atgyweiriwr Cymunedol**

Cadarnhaodd y Clerc 28 awr wedi eu gweithio ym mis Ionawr gyda chyfanswm cost o £644.00 yn cael ei gytuno.

Cynigiwyd taliad fesul awr o £24.00 ar gyfer 2026-27 (£23.00 yn 2025-26).

Cymeradwywyd parhad y contract Hyfforddwr Crefft gyda Michael Leefe ar gyfer y flwyddyn 2026-27.

**9. Digwyddiadau Cymunedol 2026**

Trafododd y Cyngor Ddigwyddiadau Cymunedol posibl yn 2026 fel a ganlyn:

- Cystadleuaeth Gerddi;
- Cystadleuaeth Ymdrech Gymunedol.

Bydd y mater yn cael ei ystyried ymhellach yng nghyfarfod nesaf y Cyngor.

**10. Adroddiad Cynllun Iaith Gymraeg 2025-26**

Cyflwynodd y Clerc yr adroddiad blynyddol drafft i Gomisiynydd y Gymraeg ar gydymffurfiaeth y Cyngor â’i Gynllun Iaith Gymraeg. Cymeradwywyd ac arwyddwyd yr adroddiad gan y Cadeirydd i'w ddychwelyd.

**11. Cwblhau Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol 2024-25**

Cyflwynodd y Clerc Ddatganiadau Ariannol 2024-25 yn dilyn cwblhau'r Archwiliad gan Archwilio Cymru. Roedd yr archwiliad wedi darparu barn archwilio ddiamod. Nododd y Clerc fod y datganiadau ariannol a'r hysbysiad o ddiwedd yr archwiliad wedi'u cyhoeddi yn ôl y gofyn.

Diolchwyd i'r Clerc am ei waith gyda Datganiadau Ariannol Blynyddol y Cyngor.

**12. Adroddiad Praesept, Blaenoriaethau a Chyllideb 2026-27**

Cyflwynodd y Clerc yr adroddiad a nododd y sefyllfa ariannol debygol ar gyfer diwedd Blwyddyn Ariannol 2025-26.

Ystyriodd y Cyngor yr adroddiad a chytunodd i ofyn am braesept o £34,000 ar gyfer 2026-27 (£31,000 yn 2025-26). Byddai'r swm yn arwain at Dreth Gyngor Band D o £52.51 (£47.44 yn 2025-26). Awdurdodwyd y Cadeirydd a'r Clerc i gwblhau a llofnodi'r gwaith papur angenrheidiol i'w ddychwelyd i Gyngor Sir Caerfyrddin.

Cadarnhaodd y Clerc ei bod yn ymarferiad da i gadw tua 3 mis i flwyddyn o precept mewn arian wrth gefn cyffredinol a dylai clustnodi unrhyw gronfeydd ymhellach mewn arian wrth gefn penodol.

Gwnaed Cyngor ystyried ei blaenoriaethau ar gyfer arian wrth gefn y Cyngor. Cytunwyd arian wrth gefn penodol fel a ganlyn:

**Gwelliannau Goleuadau Cyhoeddus (gan gynnwys cost flynyddol yr uwchraddiad Goleuadau LED o £1,077.25) £3,000**
**Gwelliannau Amwynderau £2,000**
**Diffibrilwyr £1,000**
**Ardal Chwarae ac Amwynder Idole £7,000**

**13. Cynllunio**

1. **PL/10293 -** Adeiladu clamp silwair concrit at ddibenion amaethyddol a gwaith cysylltiedig - Coedlline, Llandyfaelog, Cydweli, SA17 5NT. Dim gwrthwynebiadau.

**14. Ceisiadau am Gymorth Ariannol**

1. **Mynegodd y Cyng Elfyn Williams a Jenny Jones ei diddordebau. Ffederasiwn CFFI Sir Gâr -** Cytunwyd rhodd o £50.00
2. **Opera Ieuenctid Caerfyrddin -** Cytunwyd rhodd o £50.00
3. **Eisteddfod yr Urdd 2026** – Cytunwyd rhodd o £25.00
4. **Marie Curie** – I'w ohirio tan y cyfarfod nesaf.

**15. Cyfrifon**

**Cytunwyd y taliadau ganlynol:**

1. **Michael Leefe** **£644.00** Taliad Ionawr (gweler eitem 8)

| 3. | Disgrifiad | Cyflog | Costau | Cyfanswm Gros | Treth wedi tynnu ffwrdd | YG wedi tynnu ffwrdd | Cyflog Net |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Arfon Davies** | **Cyflog Ionawr** | **£775.54<br>£26.00** | **£19.80<br>£3.10** | **£824.44** | **£310.40** | **£53.78** | **£514.04** |

3. **Ffederasiwn CFFI Sir Gâr** **£50.00** Rhodd (gweler eitem 14.1)
4. **Opera Ieuenctid Caerfyrddin** **£50.00** Rhodd (gweler eitem 14.2)
5. **Eisteddfod yr Urdd 2026** **£25.00** Rhodd (gweler eitem 14.3)

**16. Materion arall a godwyd gan aelodau**

1. Nododd y Clerc y materion canlynol a adroddwyd i'r Cyngor Sir:
    a. Problemau gyda goleuadau troedffyrdd ym Moelfre Uchaf / Craigfryn ac yn Hazelmere, Idole.
    b. Arwydd ildio wedi'i ddifrodi yn Llandyfaelog.
    c. Draen wedi blocio ym Mancycapel yn arwain at ddŵr yn rhedeg i Danybanc.
2. Nodwyd bod Eisteddfod Gadeiriol Llandyfaelog yn digwydd ar 7fed Chwefror.
3. Cafwyd adroddiad wrth y Cynghorydd Meinir James ar Gyfarfod Cyffredinol Blynyddol Un Llais Cymru a gynhaliwyd ar 21ain Ionawr 2026.
4. Bydd y Clerc yn adrodd y materion canlynol i'r Cyngor Sir:
    a. Wyneb y ffordd o Heol y Lan i Fancycapel;
    b. Twll yn y ffordd ger arwydd pentref Cloigyn;
    c. Dŵr yn rhedeg o Lôn Ceirw i Fro Pedr.
5. Bydd y Clerc yn adrodd pryderon bod bysiau sy'n teithio tuag at Gydweli o Gaerfyrddin ddim yn casglu teithwyr yn aros yn Llandyfaelog.
6. Bydd y Clerc yn gofyn i'r Tîm Gorfodi Cynllunio gadarnhau a oedd rhai o'r datblygiadau yng Nghanolfan Adar ym Mhantgwyn yn unol â'r Cymeradwyaeth Gynllunio

**Cynhelir cyfarfod nesaf y Cyngor ddydd Iau 5ed Mawrth 2026.**